

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Jones (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers dechrau'r wythnos. Fe'i cyflwynwn hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau calonnog i Gari Lloyd Evans (Saron) ac Alaw Mai Roberts ar eu dyweddiad.

Galw Gweinidog

Gair i'ch atgoffa y bydd y Pwyllgor Bugeiliol yn cyfarfod nos Iau nesaf (12fed) am 7.30 yn Llansannan.

Hefyd, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn ymweld â phob eglwys Bresbyteraidd sy'n perthyn i'r Ofalaeth Fro i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar yr eglwysi hyn. Bwriedir cynnal y pleidleisio yn ystod yr oedfaon gaiff eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

Mai 15fed:	Cefn Berain, Cefn Meiriadog, Llanfeydd a Llanfair
Mai 22ain:	Henllan, Saron, Groes a Tanyfron
Mai 29ain:	Llansannan, Peniel a Nantglyn

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas dydd Gwener, Mai 20fed. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a **Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith plant ac oedolion yr Ysgol Sul.**
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mai 20fed – 21ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Penwythnos Plant 8 – 12 oed:** Mehefin 17-19
 - **Picnic Mawr 5 – 11 oed:** Gorffennaf 2
 - **Cwrs Ieuencid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
 - **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
 - **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18
 - **Aduniad Llanw:** Medi 23-24

Darllenid Wythnos Nesaf

1 Ioan 3:11-18 (BCND tud.265 / BCN tud.243)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Mai 2016

Darllenid y Dydd

Actau 1:1-11

(BCND tud.128 / BCN tud.118)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Byddwn yn meddwl am waith Cymorth Cristnogol heddiw ac yn gweddio dros lwyddiant i'w gwaith ymhlith pobl sy'n byw ar gyrrion dyfroedd Bangladesh. Mae lefelau'r dŵr yn beryglus o uchel, a bywyd yn anodd iawn i lawer iawn o deuluoedd, ac wrth i'r byd gynhesu a lefelau'r môr godi, mae'r dyfodol yn ymddangos yn ddiobaith. Ond fe fyddwn yn rhyfeddu bob blwyddyn wrth dderbyn yr hanesion am fywydau pobl mewn argyfyngau gan Gymorth Cristnogol, at gryfder a dyfalbarhad yr ysbryd dynol sy'n peri fod pobl yn gallu goroesi argyfyngau erchyll o gael help gan bobl o'u cwmpas a chymorth yn ei iawn bryd. Dyma'n cyfle eto i ddangos cariad a chefnogi ymdrechion yr eglwys i gyfarfod her tloidi ac anghyfiawnder, a rhannu gobaith. Diolch i bob un ohonoch sy'n gwneud y gwaith o gasglu a threfnu codi arian yn ystod yr wythnosau nesaf.

Wrth sôn am gryfder yr ysbryd dynol, rydym yn sylweddoli hefyd pa mor gryf ydi'r Ysbryd Glân, sef yr Ysbryd sydd yn Nuw, ac sy'n cael ei roi i'r eglwys i weithio yn y byd i newid dyfodol unigolion a'r teulu dynol. Dyma addewid y gwleidyddion a sail cymaint o brogoganda a maniffesto'r pleidiau, sef yr addewid am newidiadau. "Mae'n amser newid" ydi slogan pob gwleidydd uchelgeisiol, ac er nad ydwyf yn gwybod beth fydd canlyniad yr etholiadau yr wythnos hon wrth i mi sgwennu hwn, gallaf fod yn hollol hyderus mai trio newid pethe fydd pa blaid bynnag fydd mewn grym nesa.

Ydi newid yn bosibl lle nad oes 'dim byd newydd dan yr haul'? Er, cofiwch, mae gweld Leicester yn bengampwyr yr Uwch-Gynghrair yn beth newydd – a da iawn nhw! Ond a oes newid go iawn i'w gael yn rhywle?

Ateb y Beibl, yr Ysbryd, a'n profiad ni ydi 'Oes!' Mae cariad Duw yn newid popeth! A chyfle i ddangos cariad trawsffurfiol ydi'r cyfle i helpu eraill trwy Gymorth Cristnogol. Dyma sut mae loan yn ysgrifennu:

"Dyma sut yr ydym yn gwybod beth yw cariad: am iddo ef roi ei einioes drosom ni. Ac fe ddylem ninnau roi ein heinioes dros ein cydaelodau. Pwy bynnag sydd â meddiannau'r byd ganddo, ac yn gweld ei gydaelod mewn angen, ac eto'n cau ei galon yn ei erbyn, sut y mae cariad Duw yn aros ynddo? Fy mhlant, gadewch inni garu, nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd." (1 Ioan 3: 16-18) "Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau." (1 Ioan 4: 16-17) Croeso i oedfaon y dydd a diolch i'r Arglwydd am yr hanesion o obaith, ffydd a chariad y clywn amdanynt heddiw.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Anwyrin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 11^{eg}
lau – 12^{fed}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
 - **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - Cynhelir cyfarfod o'r **Pwyllgor Bugeiliol** yn Llansannan am 7.30.
- Gwener – 13^{eg}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed}
- Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 gyda chinio cynnil i ddilyn. Pris £5 – yr elw i Gymorth Cristnogol. Croeso cynnes. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn y cinio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed}
Sul nesaf – 15^{fed}
- Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso i bawb. Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 8^{fed}
- Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.
- Mercher – 11^{eg}
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mai 8fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed}
Sul nesaf – 15^{fed}
- Cynhelir gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00. Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Saron am 2.00 pryd y bydd Elgan ac Elen Jones yn cyflwyno Anni Glynne i'w bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 a Mr Peter Smith yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed}
- Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.